*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*

# *RHONDDA CYNON TAF*

**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r GRŴP LLYWIO PWYLLGOR GWEITHREDU DIWYLLIANT A CHELFYDDYDAU STRATEGOL yn cael ei gynnal yn Theatr y Parc a'r Dâr, Station Road, Treorci, CF42 6NL**
**Dydd Iau, 13eg Mehefin, 2019 am 1.00 pm**

Dolen gyswllt:Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol
(Rhif ffôn. 01443 424062)

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

### 2. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 3. COFNODION

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol a gynhaliwyd ar 5 Chwefror, 2019 yn gofnod cywir.

**(Tudalennau 3 - 14)**

### 4. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac **aelod 5** o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

**5.** **TROSGLWYDDO ASED GYMUNEDOL - CANOLFAN GELF Y MIWNI, PONTYPRIDD**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau'r Gymuned, sy'n manylu ar y cynigion a gyflwynwyd ar gyfer trosglwyddo ased gymunedol Canolfan Gelf y Miwni, Pontypridd.

**(Tudalennau 15 - 30)**

**6.** **BUDDSODDI CYFALAF**

Derbyn diweddariad ar lafar.

**7.** **RHAGLEN CYNLLUNIO GWERTH AT DDIBEN CYHOEDDUS CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

Derbyn diweddariad ar lafar.

**8.** **MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**Cylchrediad:-**

Y Cynghorydd R Lewis (Cadeirydd)
Y Cynghorydd A Crimmings (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd S. Rees-Owen
Y Cynghorydd J Rosser

Mr C Coppock - Aelod Annibynnol
Ms M Dunning - Cyngor Celfyddydau Cymru

Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Caroline O'Neill, Rheolwr Celfyddydau a Diwylliant
Adrian Williams, Rheolwr Datblygu a Gweithrediadau'r Theatrau
Wendy Edwards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau yn y Gymuned
Anne Hayes, Rheolwr y Celfyddydau a'r Diwydiannau Creadigol
Angela Gould, Rheolwr Datblygu Rhaglenni'r Theatrau a Chynulleidfaoedd

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**GRŴP LLYWIO PWYLLGOR GWEITHREDU DIWYLLIANT A CHELFYDDYDAU STRATEGOL**
Cofnodion o gyfarfod y Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 5 Chwefror 2019 am 5.00 pm ym Theatr y Parc a'r Dâr, Station Road, Treorci, CF42 6NL.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd R Lewis (Cadeirydd)

Y Cynghorydd A Crimmings Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd J Rosser

**Aelodau cyfetholedig a oedd yn bresennol**

Mr C Coppock

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Ms C O'Neill, Rheolwr Celfyddydau a Diwylliant
Mr A Williams, Rheolwr Datblygu a Gweithrediadau'r Theatrau
Ms W Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned
Ms A Hayes, Rheolwr y Celfyddydau a'r Diwydiannau Creadigol
Ms A Gould, Rheolwr Datblygu Rhaglenni'r Theatrau a Chynulleidfaoedd

**7 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees-Owen a chynrychiolydd Cyngor Celfyddydau Cymru, Ms M. Dunning.

**8 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**9 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2018 yn rhai cywir.

**10 Cyhoeddiadau**

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ganmol y maes gwasanaeth am ei gyflawniadau helaeth ers y cyfarfod diwethaf a gofynnodd i Reolwr Celfyddydau a Diwylliant Strategol roi trosolwg i'r Aelodau. Roedd hyn yn cynnwys trafod y canlynol:

- Adolygiad 5* ar wefan Wales Online o gynhyrchiad pantomeim Theatrau RhCT, 'Jack and the Beanstalk';
- Gwahoddiad i ŵyl 'Brits Off Broadway' yn Efrog Newydd i gyflwyno'r

ddrama 'Exodus', a gynhyrchwyd ar y cyd rhwng Theatrau RhCT a chwmni theatr Motherlode;

- Dathlu pen-blwydd y Colisëwm yn 80 oed – roedd llawer o bobl wedi mynd i'r achlysur Gala a oedd yn cynnwys perfformiadau o safon uchel gan unigolion a grwpiau lleol, yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- Cadeirydd Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a'r Celfyddydau Strategol yn cyrraedd rhestr fer gwobr 'Hearts for the Arts 2019';
- Sicrhau rhagor o gyllid Cyfalaf y Cyngor ar gyfer datblygiad y blwch du yn Theatr y Parc a'r Dâr; ac
- Cyfarfod cadarnhaol gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ynglŷn â chyllid refeniw – derbyniodd RhCT ganmoliaeth am ei fod yn bodloni blaenoriaethau ei Gynllun Strategol.

Roedd trafodaeth ynglŷn â'r gwahoddiad i ŵyl 'Brits Off Broadway' yn dilyn hyn – cytunodd Aelodau fod angen trefnu achlysuron er mwyn codi'r £25,000 y byddai ei angen erbyn 2020, er y byddai'n rhaid penderfynu a oedd y cyfle yma'n bodloni cynlluniau Strategaeth Ryngwladol Theatrau RhCT. Ar hyn o bryd, nid yw UDA yn flaenoriaeth yn Strategaeth Ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru.

## 11 Cylch Gorchwyl

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo Cylch Gorchwyl Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet er gwybodaeth.

## 12 Rhaglen Waith 2019/20

Dywedodd Rheolwr Celfyddydau a Diwylliant Strategol wrth y Grŵp Llywio fod y Rhaglen Waith yn ddogfen hyblyg y mae modd ei datblygu yn ôl y galw i weddu i bynciau sy'n bwysig ar wahanol adegau. Yna, cafodd gwybodaeth bellach ei rhoi i'r Grŵp Llywio am y themâu cyfredol sy wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Waith.

- **Gwasanaethu ein Cymunedau** – Cyfle i drafod a chydnabod anghenion y gymuned, y canfyddiad presennol o'r celfyddydau a sut mae modd denu cynulleidfaoedd mwy amrywiol.

  Roedd y Grŵp Llywio yn cytuno y byddai sefydlu'r Canolfannau Cymuned yn gwella dealltwriaeth y cymunedau o'r celfyddydau ac yn gwneud pobl yn effro i'r ffaith bod y celfyddydau'n cwmpasu mwy na'r theatrau'n unig.

- **Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru** – Cyfle i drafod y ffordd ymlaen wrth ddatblygu gwasanaeth cynaliadwy o safon uwch.

  Soniodd yr Aelod Annibynnol am adolygiad Cyngor Celfyddydau Cymru mewn perthynas â dosbarthu cyllid yn y dyfodol yn unol â'r flaenoriaeth yn ei Gynllun Corfforaethol i 'fod o fudd i bawb'. Roedd yr Aelod yn gobeithio y byddai hwn yn gyfle i gynyddu'r cyllid i Awdurdodau Lleol fel RhCT, sydd â'r ail boblogaeth fwyaf yng Nghymru ar ôl Caerdydd.

- **Celfyddydau ac Iechyd** – Trafod sut mae modd i'r celfyddydau fod o fudd i'r agenda iechyd ehangach.

- **Celfyddydau ac Adfywio** – Trafod creu cysylltiadau ehangach a sut mae modd dod â phrosiectau yn nes at ei gilydd.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo Rhaglen Waith Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol ar gyfer 2019/20.

**13 Cynllun Bwrsariaeth y Celfyddydau**

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Grŵp Llywio fod y dogfennau ger eu bron yn esiampl o feini prawf Awdurdod cyfagos ar gyfer ceisiadau am Fwrsariaeth y Celfyddydau, a rhoddodd y cyfle i Aelodau roi sylwadau ar gynnwys fersiwn RhCT cyn ei llunio. Eglurwyd bod grantiau gwerth £500 ar gyfartaledd yn cael eu cyflwyno sy'n rhoi cyfle i unigolion ddechrau hel profiad ym maes y celfyddydau, neu ehangu ar y profiad sydd gyda nhw eisoes yn y maes yma.

Roedd aelodau'r Grŵp Llywio yn cytuno y dylai meini prawf RhCT gynnwys naratif yn amlinellu'r gwahanol gyfleoedd y mae'r fwrsariaeth yn eu cynnig a dylen nhw fod yn haws i'w deall, yn unol â'r Cynllun Corfforaethol. Cytunwyd y dylai fod llai o reolau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beth yn rhwystro unigolion rhag gwneud cais.

O ran ystod oedran y rheini sy'n gallu gwneud cais am y grant, cafodd yr awgrymiadau canlynol eu gwneud: codi'r ystod oedran hyd at oed TGAU, oherwydd byddai gan bobl ifainc gwell syniad o'r gyrfaoedd yr hoffen nhw eu dilyn; peidio â chael terfyn oedran er mwyn rhoi'r cyfle i drigolion hŷn gael eu hailgyflwyno i'r celfyddydau; a gostwng yr oedran mor isel ag 11 mlwydd oed er mwyn rhoi cyfle i bobl ifainc wneud rhywbeth newydd ac i lywio'u gwybodaeth am y celfyddydau o oedran ifanc. Roedd Aelodau o'r farn y byddai'n fuddiol petai cynllun peilot yn cael ei gynnal o ran yr ystod oedran sy'n cael ei dewis, er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cyrraedd ei lawn botensial.

Soniodd y Grŵp Llywio am yr ymgynghoriad y byddai angen ei wneud gyda gwahanol feysydd gwasanaeth yn y Cyngor fel yr adran gyllid i sicrhau nad yw'n gorgyffwrdd â chyfleoedd cyllido eraill, a'r Gwasanaeth Ymgysylltiad a Chyfranogiad Ieuenctid a'r Gwasanaeth Cerddoriaeth a allai hyrwyddo'r fwrsariaeth i'w defnyddwyr.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

a) Y bydd fersiwn ddrafft o Gynllun Bwrsariaeth y Celfyddydau Rhondda Cynon Taf yn cael ei dosbarthu i'r Grŵp Llywio i'w chymeradwyo;
b) Y bydd Cynllun Bwrsariaeth y Celfyddydau terfynol yn cael ei gymeradwyo trwy Benderfyniad Dirprwyedig gan Swyddog.

**14 Canolfan Gelf y Miwni**

(**Nodwch:** Ar y pwynt yma, ymunodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher â'r cyfarfod.)

Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned fanylion i Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant

a Chelfyddydau Strategol am Ganolfan Gelf y Miwni a'r trafferthion llywodraethu ac ariannol a arweiniodd at gau'r Ganolfan yn ddiweddar.

Cafodd Aelodau eu hatgoffa bod prydles y Miwni wedi'i rhoi i grŵp cymunedol lleol trwy drosglwyddiad ased cymunedol, yn dilyn penderfyniad RhCT i gau'r adeilad yn 2015. Parhaodd Canolfan Gelf y Miwni i chwarae rhan bwysig a gwerthfawr yn y gymuned gyda chynyrchiadau dawns, cerdd a chelfyddyd lleol yn cael eu cynnal yno'n rheolaidd. Yn anffodus, o ganlyniad i heriau ariannol sylweddol, doedd dim modd i ddeiliaid y brydles barhau i reoli'r adeilad ac o'r herwydd, cafodd yr adeilad ei gau ar 23 Rhagfyr 2018. Ar ôl ystyried y mater yn ofalus, penderfynodd y Cyngor doedd dim modd iddo gynnig cymorth ariannol pellach i'r cwmni preifat yma.

Roedd y Cyfarwyddwr yn falch o roi gwybod bod proses 'Mynegiant o Ddiddordeb' wedi cael ei chynnal yn dilyn cau'r Miwni, er mwyn rhoi'r brydles i denant newydd. Roedd y broses yma wedi cau'r diwrnod cyn y cyfarfod yma. Eglurwyd bod chwe mynegiant o ddiddordeb o natur amrywiol wedi dod i law. Cafodd y Grŵp wybod y byddai'n cael y cyfle i gyfrannu at y broses graffu unwaith y bydd cynlluniau busnes wedi'u cyflwyno, cyn i'r Cabinet benderfynu ar y mater yn ystod yr haf.

Roedd yr Aelodau'n cytuno bod yr adeilad yn ased cymunedol ac yn destun atgofion pwerus i drigolion lleol. Gwnaeth yr Aelod Lleol sylwadau ar hyfywedd yr adeilad, gan esbonio ei fod yn cael ei ddefnyddio gan bobl o bob oed, ac nad oedd modd gwadu'r niferoedd a oedd yn mynd yno.

Roedd y Grŵp Llywio yn cydnabod y trafferthion a fu o safbwynt llywodraethu, ond roedd Aelodau'n hyderus y byddai modd i'r adeilad ddod yn ased diwylliannol i'r gymuned unwaith eto, o ganlyniad i ddatblygu cynllun 'RhCT Gyda'n Gilydd' dros y tair blynedd ddiwethaf a'r diddordeb amlwg yn y broses 'Mynegiant o Ddiddordeb' ddiweddar.

Awgrymodd y Cyfarwyddwr y dylai cydweithwyr o'r Adran Adfywio ddod i gyfarfod nesaf Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol er mwyn cyflwyno cyd-destun y gwaith adfywio ehangach sy'n digwydd yng nghanol y dref ac i gynnig eglurder ynghylch sut y mae modd i adeiladau fel Canolfan Gelf y Miwni, yr YMCA a phrosiect Dyffryn Taf ategu ei gilydd a hyrwyddo datblygu'r celfyddydau yn y gymuned ehangach.

(**Nodwch:** Ar y pwynt yma, datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher y buddiant personol canlynol "Rwy'n Ymddiriedolwraig y YMCA")

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD** nodi diweddariad Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned.

**15 Trafod cadarnhau'r Penderfyniad isod:-**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**16 Cynllun Busnes Celfyddydol a Chydweithredu Celfyddydol**

Cyflwynodd Rheolwr Rhaglen y Theatrau a Datblygu Cynulleidfaoedd Gynllun Busnes Celfyddydol Theatrau RhCT ar gyfer 2019-20 i'r Grŵp Llywio.

Tywysodd y swyddog yr Aelodau drwy restr fanwl o'r cynyrchiadau a'r cydgynyrchiadau sydd ar ddod, sy'n cynnwys drama, dawns a cherddoriaeth o safon uchel.

Yn dilyn nifer o gwestiynau gan Aelodau, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys Cynllun Busnes Celfyddydol Theatrau RhCT ar gyfer 2019-20.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.20 pm**

**Y Cynghorydd R. Lewis**
**Cadeirydd.**

tudalen wag

**RHONDDA CYNON TAF COUNCIL STRATEGIC CULTURE AND ARTS STEERING GROUP**

Minutes of the meeting of the Strategic Culture and Arts Steering Group meeting held on Tuesday, 5 February 2019 at 5.00 pm at the Park & Dare Theatre, Station Road, Treorchy, CF42 6NL.

**County Borough Councillors - Strategic Culture and Arts Steering Group Members in attendance:-**

Councillor R Lewis (Chair)

Councillor A Crimmings Councillor J Brencher
Councillor J Rosser

**Co-Opted Members in attendance:-**

Mr C Coppock

**Officers in attendance:-**

Mr P Mee, Director, Public Health, Protection & Community Services
Ms C O'Neill, Strategic Arts & Culture Manager
Mr A Williams, Theatre Operations and Development Manager
Ms W Edwards, Head of Community Services
Ms A Hayes, Arts & Creative Industries Manager
Ms A Gould, Theatre Programme and Audience Development Manager

**7 Apologies for Absence**

Apologies for absence were received from County Borough Councillor S. Rees-Owen and Arts Council Wales representative, Ms M. Dunning.

**8 Declaration of Interest**

In accordance with the Council's Code of Conduct, there were no declarations made pertaining to the agenda.

**9 Minutes**

It was **RESOLVED** to approve the minutes of the 18th September, 2018 as an accurate reflection of the meeting.

**10 Announcements**

The Chair took the opportunity to praise the service area for their vast number of achievements since the previous meeting and asked the Strategic Arts and Culture Manager to provide Members with an overview:

- 5* review on Wales Online of the RCT Theatres produced pantomime Jack & the Beanstalk;
- The invitation to Brits off Broadway in New York to present RCT Theatres' co-production with Motherlode, 'Exodus';

- The celebration of the Coliseum's 80th Birthday with a well attended Gala event which included high quality performances by local individual and groups in Welsh and English;
- The Chair of the Strategic Culture & Arts Steering Group's short listed for a Hearts for the Arts 2019 award;
- The securing of further Council Capital funding for the black box development at the Park & Dare theatre and;
- A positive meeting with Arts Council Wales regarding revenue funding where it was praised that RCT are meeting their Corporate Plan priorities.

Discussions ensued around the Brits off Broadway invitation with Members agreeing that there was a need to organise fundraisers to raise the 25K requirement for 2020 but to determine whether the opportunity met with RCT Theatres' International Strategy plans. The USA is not currently a priority with the ACW's Wales International's Strategy.

**11 Terms of Reference**

It was **RESOLVED** to approve the Terms of Reference of the Strategic Culture & Arts Steering Group which would be presented to Cabinet for information.

**12 Work Programme 2019/20**

The Strategic Arts & Culture Manager advised the Steering Group that the Work Programme is a fluid document which could be developed as and when to suit the topics of the time. The Steering Group were then provided with further information in respect of the current themes included within the Work Programme:

- **Serving our Communities** – The opportunity to discuss and recognise the needs of the community, the current perception of the arts and how audiences can be diversified.

  The Steering Group were in agreement that the creation of the Community Hubs would enhance the communities' understanding of the arts and raise awareness that the arts are more than just the theatres.

- **ACW Investment Review** – The opportunity to discuss the way forward in developing an enhanced sustainable service.

  The Independent Member spoke of the Arts Council Wales review in relation to the distribution of future funding in conjunction with its Corporate Plan priority of 'benefitting all'. The Member hoped that this would be an opportunity for an increase in funding to Local Authorities such as RCT, which has the second biggest population in Wales after Cardiff.

- **Arts & Health** – To discuss how the arts can be of a benefit to the wider health agenda.

- **Arts & Regeneration** – To discuss wider connectivity and how projects can be further entwined.

It was **RESOLVED** to approve the Work Programme for the Strategic Culture & Arts Steering Group for 2019/20.

**13 Arts Bursary Scheme**

The Chair advised the Steering Group that the documents before them were an example of a neighbouring Authority's criteria for Arts Bursary applications and gave Members the opportunity to provide comment on the content for RCT's version prior to its creation. It was explained that the average grant award is in the region of £500 and provides individuals with the opportunity to begin or further enhance their experience within the arts.

Members of the Steering Group were in agreement that RCT's criteria should be inclusive of narrative outlining the various opportunities of the bursary and should be more user friendly, in line with the Corporate Plan. It was agreed that it should include fewer rules to ensure there are no barriers in place to prevent an individual from applying.

With regard to the age range of those applying for the application, suggestions were made which included raising the age to GCSE level, where young people have clearer aspirations in terms of their careers; no age limit to reintroduce older residents to the arts and; to young people from as early as 11 years of age to provide them with the opportunity of something new and shaping their knowledge of the arts from a young age. Members were of the view that it would be beneficial for the chosen age range to be piloted to ensure that the scheme is being utilised to its full potential.

The Steering Group spoke of the consultation which would need to be undertaken with various areas of the Council such as the finance department to ensure it doesn't overlap with alternative avenues of funding, and the YEP's and Music Service who could promote the bursary to its users.

Following discussion, it was **RESOLVED:**

a) That a draft version of RCT's Arts Bursary Scheme is to be circulated to the Steering Group for approval;
b) That the final Arts Bursary Scheme is to be approved by way of Officer Delegated Decision.

**14 Muni Arts Centre**

(**Note:** At this point in proceedings, County Borough Councillor J. Brencher joined the meeting.)

The Director, Public Health, Protection & Community Services provided the Strategic Culture & Arts Steering Group with details in respect of the Muni Arts Centre, Pontypridd and its recent closure due to governance and financial issues.

Members were reminded that following RCT's closure of the building in 2015, the lease was granted to a local community group via a community asset transfer. The Arts Centre continued to be a significant and valuable part of the community with local dance, music and art productions being shown on a regular basis. Unfortunately, due to significant financial challenges, the lease holders were

unable to continue the management of the premises and as a result, the building closed on 23rd December 2018. After careful consideration the Council determined that it was unable to provide additional financial to this private company.

The Director was pleased to advise that since its closure, an Expression of Interest process to grant the lease to a new tenant had been undertaken and had closed the previous day. It was explained that six expressions of interest had been received and were of a diverse range. The Group was informed that once business plans are submitted, they would have the opportunity to be a part of the scrutiny prior to a decision being made by Cabinet in the summer.

Members were in agreement that the building is a community asset and consists of powerful memories for local residents. The Local Member commented on the viability of the building, explaining that it is used by all age ranges and that the footfall is undeniable.

The Steering Group acknowledged the former governance issues but were confident that due to the development of the RCT Together over the past three years and the interest shown in the recent expressions of interest, the building could become a cultural asset to the community once again.

The Director suggested that colleagues from Regeneration attend the next meeting of the Strategic Culture & Arts Steering Group in order to provide context on the wider town centre regeneration and clarity on how buildings such as the Muni Arts Centre, the YMCA and the Taff Vale project can complement one another and promote artistic development in the wider community.

(**Note:** At this point in proceedings, County Borough Councillor J. Brencher declared the following personal interest “I am a Trustee at the YMCA”)

Following discussions, it was **RESOLVED** to note the update of the Director Public Health, Protection & Community Services.

**15 To consider passing the following under-mentioned Resolution:**

It was **RESOLVED** that the press and public be excluded from the meeting under Section 100A(4) of the Local Government Act (as amended) for the following items of business on the grounds that it involves the likely disclosure of the exempt information as defined in paragraph 14 of Part 4 of the Schedule 12A of the Act.

**16 Artistic Business Plan and Artistic Collaborations**

The Theatre Programme and Audience Development Manager provided the Steering Group with the RCT Theatres Artistic Business Plan for 2019-20.

The officer guided Members through a detailed list of upcoming productions and co-productions, consisting of high quality work in drama, dance and music.

Following a number of questions from Members, it was **RESOLVED** to note the content of the RCT Theatres Artistic Business Plan for 2019-20.

**This meeting closed at 7.20 pm** **CLLR R LEWIS**
**CHAIR.**

tudalen wag

Ar gyfrif paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Deddf Llywodraeth Leol 1972.

# Agendwm 5

Document is Restricted

tudalen wag

Ar gyfrif paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

tudalen wag

Ar gyfrif paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

tudalen wag